

Digwyddiadau Dwyieithog

Arferion Gorau ar gyfer cynnal Digwyddiadau Dwyieithog

Bilingual Events

Best Practice for holding Bilingual Events



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD



Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government





BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Croeso

Amcan Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth gyhoeddi'r llyfryn hwn yw ei gwneud hi'n haws trefnu digwyddiadau lle gwelir a chlywir y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Bydd dilyn yr arferion gorau yn y llyfryn hefyd yn ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, naill ai fel trefnwyr a siaradwyr mewn digwyddiadau, neu fel aelodau o'r gynulleidfa.

Bydd cynulleidfa y rhan fwyaf o ddigwyddiadau yng Nghymru yn cynnwys pobl sy'n medru siarad Cymraeg. Dengys ymchwil yn gyson bod dros 80% o bobl Cymru yn cytuno bod y Gymraeg yn "bwysig i ddiwylliant Cymru" ac yn "rhywbeth i fod yn falch ohoni". Serch hynny, cymharol brin yw'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn digwyddiadau cyhoeddus ar hyn o bryd. Anaml y bydd y Gymraeg i'w chlywed o'r llwyfan, ac ambell waith ni fydd hyd yn oed arwyddion a chyhoeddiadau yn defnyddio'r Gymraeg.

Mae pob digwyddiad yn wahanol, wrth gwrs, ond po fwyaf y bydd digwyddiadau yng Nghymru yn dilyn yr un patrwm ac arferion wrth ymdrin â dwyieithrwydd, po fwyaf y bydd pobl yn gwybod beth i'w ddisgwyl, ac yn teimlo'r hyder i ddefnyddio iaith o'u dewis. Bydd defnyddio a chlywed mwy o'r Gymraeg yn adlewyrchu'n well y gefnogaeth eang iawn sydd i'n iaith genedlaethol.

Welcome

The Welsh Language Board's aim in publishing this booklet is to make it easier to organise events where Welsh is seen and heard alongside English. Following the best practice in the booklet will also make it easier for people to use Welsh, whether as organisers and speakers in events, or as members of the audience.

In most events held in Wales, the audience will include people who can speak Welsh. Research regularly shows that over 80% of the people of Wales agree that Welsh is "important to Welsh culture" and is "something to be proud of". In spite of this, the opportunities to use Welsh in public events are relatively few at present. It is unusual to hear Welsh from the stage, and sometimes there may not even be signs and publications which use Welsh.

Each event is different, of course, but the more events in Wales use the same pattern and practice when dealing with bilingualism, the more people will know what to expect, and the more they will feel confident using their preferred language. Using and hearing more Welsh will properly reflect the extensive support that people have for our national language.

Manteision cynnal digwyddiad dwyieithog

Mae sicrhau bod digwyddiad yn ddwyieithog yn cydnabod bod Cymru yn wlad ddwyieithog. Dangosodd cyfrifiad 2001 bod 28% o boblogaeth Cymru yn deall rhywfaint o Gymraeg, a bod 21% yn medru siarad yr iaith, felly bydd pobl sy'n medru siarad a deall Cymraeg mewn bron i unrhyw gynulleidfa. Mae cynnig y cyfle i'r rheiny sy'n medru siarad Cymraeg ddewis ei defnyddio yn gyhoeddus yn dangos parch, heb amharu ar hawliau nac urddas pobl nad ydynt yn medru deall Cymraeg.

Mewn sawl ardal o Gymru, Cymraeg yw iaith naturiol y gymuned - y Gymraeg fydd yn cael ei defnyddio ar yr aelwyd, yn gymdeithasol, mewn gweithgareddau lleol, ac i drafod pynciau llosg y dydd. Gall digwyddiad uniaith Saesneg felly rwystro pobl rhag cymryd rhan lawn yn y digwyddiad. Gallant fod yn amharod i gyfrannu neu fynegi eu barn yn gyhoeddus yn Saesneg, er ei bod yn siarad yr iaith honno, gan mai yn Gymraeg yn unig y byddant wedi trafod ymlaen llaw. Hyd yn oed mewn ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith gymunedol, gall fod llawer o siaradwyr Cymraeg, nifer o gartrefi naturiol Gymraeg, a sawl chymdeithas neu fudiad sy'n gweithredu yn Gymraeg yn unig. Os yw digwyddiad yng Nghymru am gyrraedd cynulleidfa lawn, rhaid iddo fod yn un dwyieithog.

Yn gynyddol, mae dwyieithrwydd yn cael ei weld fel elfen allweddol o weithredu yn gyfrifol a theg yng Nghymru. Mae cyrff a busnesau fel ei gilydd yn ystyried sut y byddant yn parchu defnyddwyr a chwsmeriaid, a sut byddant yn gwarchod neu gynnal yr amgylchedd, diwylliant a chelfyddyd. Mae balchder a chefnogaeth amlwg i'r Gymraeg i'w gweld gan y mwyafrif helaeth o bobl Cymru. Bydd unrhyw ddigwyddiad dwyieithog felly yn ennill parch i'r holl drefnwyr, noddwyr a siaradwyr sydd yn rhan ohono.

The advantages of holding a bilingual event

Ensuring that an event is held bilingually acknowledges that Wales is a bilingual country. The 2001 census showed that 28% of the population of Wales could understand some Welsh, and that 21% could speak the language, so in almost any audience there will be people able to speak and understand Welsh. Offering those who can speak Welsh the opportunity to use it publicly shows respect, without impeding the rights or dignity of those who cannot understand Welsh.

In many areas of Wales, Welsh is the natural language of the community - Welsh will be used in the home, socially, in local activities, and to discuss the day's burning issues. A monolingual English event can therefore prevent people from participating fully. They may be unwilling to contribute or express their opinion publicly in English, although they speak that language, as they have only discussed things in Welsh beforehand. Even in areas where Welsh is not the main community language, there may be many Welsh speakers, many naturally Welsh households, and societies and organizations which operate only in Welsh. Any event needs to be bilingual to reach the widest possible audience.

Increasingly, bilingualism is seen as a crucial part of operating in a responsible and fair way in Wales. Organisations and businesses alike consider how they will respect their consumers and customers, and how they will protect or support the environment, culture and the arts. The vast majority of the population of Wales have pride in and support for the Welsh language, so any bilingual event reflects well on the organisers, sponsors and speakers who are part of it.



Beth yw ystyr “digwyddiad”?

Mae'r llyfryn hwn yn ystyried bod “digwyddiad” yn achlysur sydd ar agor i'r cyhoedd yn gyffredinol neu i gylch eang o bobl, efallai yn cynrychioli nifer o sefydliadau neu trwy wahoddiad yn unig. Er enghraifft:

- Cyfarfod Cyhoeddus
- Cynhadledd neu Seminar
- Seremoni Wobrwyo
- Digwyddiad Rhwydweithio
- Sioe neu Arddangosfa
- Cinio neu Lansiad

Nid yw'r arferion gorau hyn wedi eu bwriadu ar gyfer cyfarfodydd sydd yn fewnol i gorff neu bartneriaeth, nac ar gyfer cyfweiliadau, gwrandawliadau ac ati, er bod rhai ystyriaethau sy'n gyffredin i ddigwyddiadau o unrhyw fath.

What is meant by “event”?

This booklet considers that an “event” is an occasion which is open to the general public, or to a wide circle of people, perhaps representing a number of organisations or by invitation only. For example:

- Public Meetings
- Conferences or Seminars
- Award Ceremonies
- Networking Events
- Shows or Exhibitions
- Dinners or Launches

This best practice is not intended for internal meetings of bodies or partnerships, nor for interviews, hearings etc, although some considerations apply to all kinds of events.



Beth yw ystyr “dwyieithog”?

Mewn digwyddiad dwyieithog, rhaid sicrhau parch i'r ddwy iaith ym mhob agwedd ohono.

Yn ddelfrydol, bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ym mhob rhan o'r digwyddiad, ond weithiau gall fod rhesymau dilys dros ddefnyddio un iaith yn fwy na'r llall.

Bu cynnydd mawr yn y ddarpariaeth o wasanaethau dylunio dwyieithog a chyfieithu safonol dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae nifer o fusnesau sydd â phrofiad helaeth o drefnu digwyddiadau yn ddwyieithog. Mae hynny'n ei gwneud hi'n haws nac erioed o'r blaen i drefnu digwyddiad sydd yn wirioneddol ddwyieithog.

What is meant by “bilingual”?

A bilingual event must ensure that both languages are respected throughout. Ideally, that means that Welsh and English must be treated equally in every part of the event, although sometimes there may be valid reasons for using one language more than the other.

There has been significant growth in the provision of quality bilingual design and translation services over the last few years, and there are many businesses which have extensive experience of organising events bilingually. That makes it easier than ever before to organise an event which is genuinely bilingual.

Mae medru siarad yn gyhoeddus yn Gymraeg yn dibynnu ar allu ieithyddol y cyflwynydd a'r siaradwyr. Yn amlwg, os nad oes unrhyw un ohonynt yn medru siarad Cymraeg, bydd dim ffordd i chi sicrhau bod y Gymraeg i'w chlywed o'r llwyfan. Lle'n bosib, dylech felly geisio dewis cyflwynydd neu siaradwyr sy'n medru siarad Cymraeg. Wedi gwneud hynny, dylech hefyd sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio o'r llwyfan trwy gytuno gyda nhw eu bod yn siarad yn ddwyieithog neu yn Gymraeg fel sy'n briodol.

Being able to speak publicly in Welsh depends on the linguistic ability of the presenter and speakers. Clearly, if none of these can speak Welsh, then you will not be able to ensure that the Welsh language is used on stage. Where possible, you should therefore try to choose a presenter or speaker who is able to speak Welsh. Having done so, you should also ensure that Welsh is used on stage by agreeing with them that they speak in Welsh or bilingually as appropriate.

Cynnwys

Mae gweddill y llyfryn hwn yn cynnwys rhestr o bethau sy'n werth meddwl amdanynt wrth drefnu digwyddiad. Mae pob pennawd yn cynnwys rhestr gryno o'r pethau mwyaf pwysig y byddwch am eu gwneud, a hefyd ambell waith rhai pethau na fyddwch am wneud.

Bydd rhaid i chi bwysu a mesur sawl peth wrth gynllunio a threfnu - siaradwyr, lleoliad, arlwyo, cynulleidfa, argraffu, marchnata, staffio - ac mae pob digwyddiad yn wahanol. Felly mae'n debyg na fydd pob pennawd yn berthnasol i chi.

Yng nghanol y bwrlwm o drefnu, gall fod yn hawdd anghofio'r Gymraeg "am y tro". Ond mae trefnu digwyddiad dwyieithog yn haws o lawer os byddwch chi'n ystyried yr iaith Gymraeg fel rhan greiddiol ohono o'r cychwyn. Meddyliwch am sut y byddwch yn trin y ddwy iaith mor gyfartal ag sy'n rhesymol bosib, ac wedyn gwnewch yn siŵr fod pawb sy'n gweithio gyda chi ar drefnu a chynnal y digwyddiad yn deall yn glir beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn cyflawni hynny.

Contents

The rest of this booklet contains a list of things that are worth thinking about as you organise your event. Each heading contains a brief list of the most important things you will need to do, and also sometimes some things that you won't want to do.

You will have to deal with many things as you plan and hold your event - speakers, venue, catering, audience, printing, marketing, staff - and each event is different. Some of the headings may not be relevant to you.

In the midst of all your organising, it can be easy to forget Welsh "for the time being". But arranging a bilingual event is always much easier if you consider Welsh as an integral part from the beginning rather than trying to add bilingualism later on. Think about how you will treat the two languages as equally as is reasonably possible, and then make sure that all the people working with you on organising and holding the event understand clearly what they need to do to achieve that.

Cofrestru mynychwyr

Cyfieithu ar y pryd
Cyflwynydd

Rôl y cyflwynydd ar y diwrnod

Siaradwyr a Chyflwyniadau
Cyflwyniadau Ffilm
Grwpiau Trafod

Staffio

Rhwydweithio
Hysbysebu a Marchnata, Cyhoeddiadau

Gwefan

Rhaglen y Digwyddiad
Arlwyo

Arddangosfa

Gwobrau

Dogfennau defnyddiol

Gwasanaethau Defnyddiol

5 Registration

5 Simultaneous translation
5 Presenter

6 The presenter's role on the day

6 Speakers and Presentations
6 Film Presentations
6 Discussion Groups

7 Staff

7 Networking
7 Advertising and Marketing, Publications

8 Website

8 Event Programme
8 Catering

9 Exhibition

9 Awards

10 Useful documents

10 Useful Services

Cofrestru mynychwyr

Wrth wahodd pobl i gofrestru, cewch gyfle i ofyn a ydynt yn medru deall a siarad Cymraeg. Ceisiwch wneud hynny mewn da bryd cyn y digwyddiad os medrwch. Cofiwch fod rhai pobl yn deall Cymraeg yn ddigon da i wneud heb wasanaeth cyfieithu, er na fyddent yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg.

- ✓ Gofynnwch i bobl ym mha iaith yr hoffent i chi gyfathrebu gyda nhw, gan roi tri dewis iddynt (Cymraeg, Saesneg, Dwyieithog)
- ✓ Gofynnwch i bobl a ydynt yn deall Cymraeg
- ✓ Gofynnwch i bobl a ydynt yn medru siarad Cymraeg
- ✗ Peidiwch â gofyn cwestiwn fel "A fyddwch chi'n defnyddio Cymraeg yn y digwyddiad?" gan nad oes ffordd resymol i bobl benderfynu ar hynny ymlaen llaw.

Registration

When inviting people to register, you will have the opportunity to ask if they can understand and speak Welsh. Try to do so well in advance of the event if you can. Remember that some people can understand enough Welsh to do without a translation service, even though they would not say that they can speak Welsh.

- ✓ Ask people in which language they would like you to communicate with them, giving them three choices (Welsh, English, or Bilingual).
- ✓ Ask people if they can speak Welsh.
- ✓ Ask people also if they can understand Welsh.
- ✗ Don't ask questions such as "Will you be using Welsh at the event?" as there is no reasonable way for people to decide upon that in advance.



Cyfieithu ar y pryd

Nid oes angen cyfieithydd ar y pryd ar gyfer pob digwyddiad dwyieithog. Mewn egwyddor, medrwch seilio eich penderfyniad ar ddau gwestiwn yn unig:

- ✓ Oes unrhyw un a fedrai siarad yn y digwyddiad yn Gymraeg?
- ✓ Oes unrhyw un yn y digwyddiad nad ydynt yn medru deall Cymraeg?

Os mai'r ateb i'r ddau gwestiwn hyn yw "oes", wedyn bydd angen i chi sicrhau bod unrhyw gyfraniadau yn y Gymraeg yn cael eu cyfieithu ar gyfer pobl na fyddant yn eu deall. Fel rheol, bydd angen i chi wneud hynny trwy ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd proffesiynol. Mewn rhai digwyddiadau anffurfiol, medrwch ofyn i'ch siaradwyr gyflwyno yn y ddwy iaith, os ydynt yn medru siarad Cymraeg a Saesneg a'u bod yn fodlon siarad yn ddwyieithog. Defnyddir y dull hwn yn aml mewn digwyddiadau anffurfiol, lle na fydd cwestiynau na thrafodaeth ar ôl araith fer.

- ✓ Cytunwch neu ceisiwch ddyfalu a fydd unrhyw gyfraniadau yn Gymraeg.
- ✓ Ceisiwch ddarganfod faint o'ch cynulleidfa sy'n medru deall Cymraeg.
- ✓ Ar sail hynny, meddyliwch a oes angen gwasanaeth cyfieithydd ar gyfer y digwyddiad.
- ✗ Peidiwch hepgor cyfieithydd ar y pryd oherwydd nad oes llawer o'r gynulleidfa yn medru siarad Cymraeg – nid ar eu cyfer nhw mae'r gwasanaeth cyfieithu, ond yn hytrach ar gyfer y rhai nad ydynt yn deall Cymraeg.

Simultaneous translation

Not every bilingual event requires simultaneous translation. In principle, you can base your decision on just two questions:

- ✓ Is there any one who might contribute to the event in Welsh?
- ✓ Is there any one who is part of the event who can not understand Welsh?

If your answer to both is "yes", then you will need to ensure that any Welsh contributions are translated for those who can not understand them. As a rule, you will need to do that by using a professional simultaneous translator. In some informal events, you can ask your speakers to present in both languages, if they can speak Welsh and English and are willing to speak bilingually. This method is often used for informal events, where there are no questions or discussion following a short speech.

- ✓ Agree or try to guess whether there will be any Welsh contributions.
- ✓ Try to find out how many in your audience can understand Welsh.
- ✓ On that basis, consider if the services of a translator are required for the event.
- ✗ Do not omit a simultaneous translator because only a few audience members can speak Welsh - the service is not for them, but rather for those who do not understand Welsh.

Cyflwynydd

Mae hon yn rôl allweddol. Bydd y cyflwynydd yn siarad ar eich rhan o'r llwyfan ac yn gosod cywair ar gyfer y digwyddiad. Mae'n bwysig eich bod yn trafod natur ddwyieithog eich digwyddiad yn fanwl gyda'r cyflwynydd, mor gynnar â phosib, ac yn bendant nid yn ystod y munudau olaf cyn y digwyddiad. Os nad yw eich cyflwynydd wedi rheoli digwyddiad dwyieithog o'r blaen, neu os nad yw'n medru siarad Cymraeg, meddylwch am sut fedrwch chi roi cyngor neu gymorth iddo er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn rhedeg yn llyfn.

- ✓ Rhowch gyfarwyddyd clir i'ch cyflwynydd ar natur ddwyieithog eich digwyddiad, a gwnewch hynny yn rhan o'ch cytundeb gydag ef/hi.
- ✓ Gwnewch yn siŵr fod eich cyflwynydd wedi cyfarfod â'r siaradwyr eraill ymlaen llaw ac yn gwybod pa rai ohonynt sy'n medru deall a siarad Cymraeg.
- ✓ Gwnewch yn siŵr fod eich cyflwynydd yn gyfarwydd ag offer cyfieithu, yn medru esbonio sut i'w ddefnyddio, ac wedi cyfarfod â'r cyfieithydd cyn y digwyddiad.

Presenter

This is a key role. The presenter will speak on your behalf from the stage and set the tone of the event. It is important that you discuss the bilingual nature of your event in detail with the presenter as soon as possible and not during the last few minutes leading up to the event. If your presenter has not managed a bilingual event before, or if they cannot speak Welsh, think about how you can give them advice and support to help them manage the event successfully.

- ✓ Give your presenter clear instruction on the bilingual nature of your event, and do so as part of your agreement with him/her.
- ✓ Ensure that your presenter has met the other speakers before hand and knows which ones can speak and understand Welsh.
- ✓ Ensure that your presenter is familiar with translation equipment, can explain how to use it, and has met the translator before the event.



Rôl y cyflwynydd ar y diwrnod

Wrth agor a llywio'r digwyddiad, bydd gan y cyflwynydd nifer o gyfrifoldebau allweddol.

- ✓ Lle bo'n bosib, dylai'r cyflwynydd ddefnyddio'r ddwy iaith wrth siarad er mwyn tanlinellu dwyieithrwydd y digwyddiad trwy esiampl.
- ✓ Os oes offer cyfieithu ar y pryd, rhaid i'r cyflwynydd esbonio i'r gynulleidfa sut i'w ddefnyddio, a phrofi bod y cyfarpar yn gweithio.
- ✓ Os bydd cyfle i aelodau'r gynulleidfa gymryd rhan mewn trafodaeth neu i ofyn cwestiynau, mae'n bwysig bod y cyflwynydd yn eu hannog i wneud hynny yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis. Dylai'r cyflwynydd hefyd atgoffa'r gynulleidfa bod modd holi mewn un iaith a chael ateb yn y llall, yn arbennig wrth gyflwyno trafodaeth neu sesiwn holi ac ateb.

Siaradwyr a chyflwyniadau

Fel gyda'r cyflwynydd, dylech ystyried dwyieithrwydd wrth ddewis ac wedyn wrth baratoi eich siaradwyr. Oes angen i rai ohonynt fedru siarad Cymraeg, er mwyn sicrhau llwyfan ddwyieithog i'r digwyddiad? Ydych chi am iddynt wneud eu cyflwyniad neu araith yn ddwyieithog, neu mewn un iaith yn benodol? Os nad ydynt yn siarad Cymraeg, oes ganddynt brofiad o ddefnyddio clustffonau cyfieithu a derbyn cwestiynau yn Gymraeg?

- ✓ Gwnewch yn siwr lle bo hynny'n bosib bod rhai o'ch siaradwyr llwyfan yn medru deall a siarad Cymraeg, a bod cyfraniadau ganddynt yn Gymraeg o'r llwyfan.
- ✓ Gwnewch yn siwr fod eich siaradwyr yn gyfarwydd ag offer cyfieithu, a'u bod wedi paratoi ar gyfer cymryd rhan mewn digwyddiad dwyieithog os nad ydynt wedi gwneud hynny o'r blaen.
- ✓ Os bydd siaradwyr wedi paratoi areithiau neu gyflwyniadau, gwnewch yn siwr eu bod yn ddwyieithog, a rhowch gopiau ymlaen llaw i'r cyfieithydd.

The Presenter's role on the day

In opening and steering the event, the presenter will have many key responsibilities.

- ✓ Where possible, the presenter should use both languages when speaking, in order to highlight the bilingualism of the event by example.
- ✓ If there is simultaneous translation equipment, the presenter must explain to the audience how to use it, and test that the equipment works.
- ✓ If there is an opportunity for members of the audience to take part in a discussion or ask questions, it is important that the presenter encourages them to do so in Welsh or English according to their preference. The presenter should also remind the audience that questions can be placed in one language and answered in another, especially when presenting a discussion or in Q&A sessions.

Speakers and presentations

As with the presenter, you should consider bilingualism when choosing and preparing your speakers. Do some of them need to be able to speak Welsh, in order to ensure a bilingual stage for the event? Do you want them to make their presentations or speeches bilingually, or in one language in particular? If they cannot speak Welsh, do they have experience of using translation headphones and receiving questions in Welsh?

- ✓ Ensure wherever possible that some of your stage speakers can understand and speak Welsh, and that they contribute in Welsh from the stage.
- ✓ Ensure that your speakers are familiar with translation equipment, and that they have been briefed on how to take part in a bilingual event if they have not done so before.
- ✓ If speakers have prepared speeches or presentations, ensure that they are bilingual, and give the translator copies in advance.

Cyflwyniadau ffilm

Gall eich digwyddiad gynnwys cyflwyniadau nad oes ganddynt siaradwr na chyflwynydd o'r llwyfan. Meddyliwch sut y maent yn cyfrannu at ddwyieithrwydd y digwyddiad yn ei gyfanrwydd. Gallai digwyddiad fod yn ddwyieithog trwy gynnwys dwy ffilm yn Saesneg, wedi eu dilyn gan ddau siaradwr yn Gymraeg. Meddyliwch hefyd sut orau i ddarparu cyfieithiad. Gallai ffilm fer yn Gymraeg gael ei chyfieithu gan is-deitlau, neu gan wasanaeth cyfieithu ar y pryd.

- ✓ Meddyliwch sut y bydd cyflwyniadau ffilm, at ei gilydd, yn cyfrannu at ddwyieithrwydd eich digwyddiad.
- ✓ Os bydd cyflwyniadau ffilm yn cael eu cyfieithu ar y pryd, rhowch gopi ymlaen llaw i'ch cyfieithydd.

Grwpiau trafod

Os bydd eich digwyddiad yn cynnwys grwpiau trafod, bydd angen i chi feddwl am sut y byddwch yn ymdrin â dwyieithrwydd wrth wneud hynny. Mae trefnu hwylusydd dwyieithog a chyfieithu ar y pryd ar gyfer pob grŵp trafod yn sicrhau'r dewis llawn i bawb sy'n mynychu'r digwyddiad, ond gall fod angen nifer o gyfieithwyr. Gallwch wneud heb gyfieithydd trwy drefnu bod grwpiau yn trafod trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn unig, ond efallai wedyn na fydd rhai pobl yn medru trafod pwnc o ddiddordeb iddynt yn yr iaith o'u dewis. Ceisiwch roi'r dewis mwyaf llawn i bawb, mewn ffordd deg a rhesymol.

- ✓ Meddyliwch sut y gallwch gynnig y dewis mwyaf eang o bynciau i fynychwyr yn eu dewis iaith.

Film presentations

Your event may include presentations which do not have stage speakers or presenters. Think about how they contribute to the overall bilingualism of the event. An event could be bilingual by including two films in English, followed by two speeches in Welsh. Also think about the best way to provide translation. A short Welsh-language film could be translated with subtitles, or using simultaneous translation.

- ✓ Consider how film presentations contribute to the overall bilingualism of your event.
- ✓ If film presentations are translated simultaneously, give the translator a copy of the film in advance.

Discussion groups

If your event includes discussion groups, you will have to consider how they will handle bilingualism. Organising a bilingual facilitator and simultaneous translation for every discussion group ensures a full choice for everyone who attends the event, but might require a number of translators. You can do without a translator by arranging that groups will discuss either in Welsh or in English, but some people may then not be able to discuss something of interest to them in their preferred language. Try to give everyone the widest choice, in a fair and reasonable way.

- ✓ Consider how you can offer the widest choice of discussion topics to attendees in their preferred language.

Staffio

Gall staff yn y digwyddiad fod yn gweithio i chi neu i nifer o'ch cyflenwyr (arlwyo, lleoliad, technegol) ond o safbwynt y gynulleidfa maent oll yn rhan o'r un digwyddiad. Dylech annog eich cyflenwyr i ddefnyddio staff sy'n medru siarad Cymraeg ar gyfer eich digwyddiad os ydynt yn medru gwneud hynny. Os ydych yn brin o staff dwyieithog, dylech wneud yn siwr bod rhai sy'n medru siarad Cymraeg yn gweithio wyneb-yn-wyneb â'r cyhoedd - cyfarch a chreso, yn hytrach na thu ôl i'r llwyfan.

- ✓ Dewch â'r holl staff a rheolwyr ynghyd cyn y digwyddiad er mwyn rhannu gwybodaeth allweddol - natur ddwyieithog y digwyddiad, rhaglen y dydd, lleoliadau allweddol fel toiledau ac allanfeydd tân, pobl allweddol fel siaradwyr a rheolwyr, rheolau a gwybodaeth bwysig, ac yn y blaen.
- ✓ Gwnewch yn siwr fod pob aelod o staff sy'n deall Cymraeg yn gwisgo bathodyn Dewis Cymraeg. Medrwy archebu bathodynnau o wefan y Bwrdd.

Staff

Staff at the event could be working for you or your suppliers (catering, location, technical) but from the viewpoint of the audience they are all part of the same event. You should encourage your suppliers to use staff who can speak Welsh for your event if they can. If you don't have enough bilingual staff, you should ensure that those who can speak Welsh are given front-facing roles - greeting and welcoming, rather than backstage.

- ✓ Bring all the staff and managers together before the event in order to share key information - the bilingual nature of the event, the order of the day, key locations such as toilets and fire exits, key people such as speakers and managers, important rules and information, and so on
- ✓ Ensure that every member of staff who understands Welsh wears a Choose Welsh badge. You can order badges from the Board's website.



Rhwydweithio

Gall fod yn anodd gwybod a yw rhywun yn medru siarad Cymraeg ai peidio, ac yn aml bydd sgwrs felly yn cychwyn yn Saesneg. Os ydych yn paratoi bathodynau enw, ac wedi gofyn i bobl a ydynt yn medru deall neu siarad Cymraeg, defnyddiwch yr wybodaeth hon i gynnwys logo Dewis Cymraeg ar fathodynau enw. Os na fedrwch wneud hynny, gwnewch yn siwr fod lle ar y bathodynau enw i roi sticer Dewis Cymraeg, a bod eich staff croeso a chyfarch yn eu cynnig i bawb wrth iddynt gyrraedd.

- ✓ Defnyddiwch fathodynau enw i ddangos pwy sy'n medru deall neu siarad Cymraeg.

Hysbysebu a Marchnata, Cyhoeddiadau
Dyma'r dogfennau sy'n diffinio cymeriad a delwedd eich digwyddiad. Mae'n bwysig felly eu bod yn adlewyrchu eich polisi ar ddwyieithrwydd yn gyson ac yn safonol. Os ydych chi'n datblygu delwedd neu frand newydd ar gyfer eich digwyddiad, ceisiwch wneud hynny yn ddwyieithog, yn hytrach na dylunio mewn un iaith ac wedyn addasu ar gyfer y llall. Yn gyffredinol, rhaid i bob dogfen a chyhoeddiad gynnwys y ddwy iaith yn gyfartal â'i gilydd. Os byddwch yn penderfynu defnyddio un iaith yn fwy na'r llall, dylech esbonio eich rhesymau dros wneud hynny yn gyflawn ac mewn lle amlwg fel y dudalen gynnwys neu'r cyflwyniad. Os ydych yn darlledu hysbysebion, dylech ddefnyddio'r iaith neu ieithoedd fwyaf addas ar gyfer sianelau radio neu deledu gwahanol. Cofiwch hefyd y bydd angen datganiadau a llefarydd dwyieithog arnoch er mwyn cael sylw yn y wasg cyfrwng Cymraeg.

Networking

It can be difficult to know whether someone can speak Welsh or not, and so conversations will often start off in English. If you are preparing name badges, and have asked people whether can they understand or speak Welsh, use this information to include a Choose Welsh logo on name badges. If you cannot do that, ensure that there is space on the badges to place a Choose Welsh sticker, and that your greeting and welcoming staff offer these to everyone as they arrive.

- ✓ Use name badges to show who can speak Welsh.

Advertising and Marketing, Publications

These are the documents that define the character and image of your event. It is important that they reflect your bilingual policy consistently and to a high standard. If you develop a new brand or image for your event, try to do so bilingually, rather than designing in one language and then adapting to the other. Generally, every document and publication must include both languages equally. If you decide to use one language more than the other, you should explain your reasons for doing so fully in a prominent position, such as the contents page or in the introduction. If you are broadcasting adverts, you should use the language(s) which are most appropriate for different radio or television channels. Also remember you will need bilingual press statements and a bilingual spokesperson to gain coverage in the Welsh-language media.

- ✓ Dewiswch ddylunwyr sydd â phrofiad o weithio'n ddwyieithog, a rhoch gyfarwyddiadau clir a phendant iddynt.
- ✓ Gwnewch yn siwr eich bod yn defnyddio cyfieithydd proffesiynol, neu fod eich dylunwyr yn cymryd cyfrifoldeb dros gyfieithu ar eich rhan.
- ✓ Gwnewch yn siwr fod pob deunydd hysbysebu a marchnata, yn cynnwys eich gwahoddiadau, yn dweud bod eich digwyddiad yn un dwyieithog.
- ✓ Defnyddiwch ddogfennau dwyieithog, yn hytrach na rhai ar wahân yn y ddwy iaith.
- ✓ Gwnewch yn siwr fod datganiadau i'r wasg yn ddwyieithog, a bod gennych lefarydd dwyieithog ar gyfer gwaith cyswllt cyhoeddus

- ✓ Choose designers who have experience of working bilingually, and give them clear and unambiguous instructions.
- ✓ Ensure that you use a professional translator, or that your designer takes responsibility for translation on your behalf.
- ✓ Ensure that every piece of promotion and marketing material, including your invitations, states that your event is bilingual.
- ✓ Use bilingual documents, instead of separate documents in the two languages.
- ✓ Ensure that press releases are bilingual, and that you have a bilingual spokesperson for public relations work



Gwefan

Os oes gwefan ar gyfer eich digwyddiad, mae'n bwysig ei bod yn adlewyrchu eich polisi ar ddwyieithrwydd. Fel rheol dylai fod yn gwbl ddwyieithog, heblaw am elfennau hyblyg fel trafodaeth fforwm. Os ydych yn dosbarthu hysbysebion neu ddanfon gwahoddiadau ar y we, dylech wastad wneud hynny'n ddwyieithog, heblaw eich bod eisoes wedi cofnodi dewis iaith y derbynnydd a'ch bod felly yn cyfathrebu gyda nhw yn eu dewis iaith.

- ✓ Defnyddiwch ddylunwyr a chyfieithwyr profiadol (fel uchod).
- ✓ Gwnewch yn siwr fod eich gwefan yn cyrraedd Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog y Bwrdd.

Rhaglen y digwyddiad

Yn ogystal â bod yn arf marchnata gwerthfawr, mae'r rhaglen yn help i sicrhau bod eich digwyddiad yn rhedeg yn esmwyth. Gan y bydd pawb sy'n cymryd rhan yn cyfeirio ato'n gyson trwy gydol y diwrnod, mae'n gyfle da i chi ddathlu eich ymrwymiad i ddwyieithrwydd, i atgoffa eich cynulleidfa a'ch staff pa ddarnau o'r digwyddiad fydd yn y Gymraeg a pha rai fydd yn Saesneg, ac i annog pawb i ddefnyddio eu dewis iaith yn hyderus.

- ✓ Defnyddiwch ddylunwyr a chyfieithwyr profiadol (fel uchod).
- ✓ Defnyddiwch y logo Dewis Cymraeg i ddangos pa rai o'ch siaradwyr sy'n medru siarad Cymraeg, a pha gyflwyniadau a thrafodaethau fydd yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.

Website

If your event has a website, it is important that it reflects your policy on bilingualism. As a rule it should be completely bilingual, apart from dynamic elements such as discussion forums. If you are distributing adverts or sending invitations on the internet, you should always do so bilingually, unless you have already noted the recipient's preferred language and therefore are communicating with them in their preferred language.

- ✓ Use experienced designers and translators (as above).
- ✓ Ensure that your website follows the Board's Guidelines and Standards for Bilingual Software.

Event programme

As well as being a valuable marketing tool, the programme will help to ensure that your event runs smoothly. Because everyone involved will refer to it constantly throughout the day, it is an ideal opportunity for you to celebrate your commitment to bilingualism, to remind your audience and your staff which parts of your event are in Welsh and which are in English, and to encourage everyone to use their preferred language with confidence.

- ✓ Use experienced designers and translators (as above).
- ✓ Use the Choose Welsh logo to show which of your speakers can speak Welsh, and which presentations and discussions will be held in Welsh or bilingually.

Arlwyo

Os bydd eich digwyddiad yn cynnwys bwyd a diod, dylech sicrhau bod enwau bwydydd a bwydlenni yn gwbl ddwyieithog. Gallwch eu cyfieithu am ddim trwy ddefnyddio'r Llinell Gyswllt â'r Gymraeg. Os oes bwyd ffurfiol, dylech hefyd ystyried defnyddio'r Marc Dewis Cymraeg ar gardiau enw a'r cynllun eistedd i ddangos pwy sy'n medru deall neu siarad Cymraeg. Bydd hynny'n helpu pobl i rwydweithio yn ystod y pryd, a hefyd yn gymorth i staff sy'n gweini bwyd.

- ✓ Defnyddiwch y gwasanaeth Llinell Gyswllt â'r Gymraeg i gyfieithu brawddegau byrion, enwau bwydydd a diodydd, a bwydlenni cyflawn am ddim.
- ✓ Ceisiwch sicrhau bod staff sy'n gweini yn deall yr enwau Cymraeg am fwydydd a diodydd, ac yn ymwybodol o natur ddwyieithog y digwyddiad.

Catering

If your event includes food and drink, you should ensure that relevant labels and menus are bilingual. These can be translated free of charge using the Linkline to Welsh service. If there is formal dining, you should also consider using the Choose Welsh Mark on place holders and the seating plan to show which guests are able to understand Welsh. This will help people to network during the meal, and will also help the serving staff.

- ✓ Use the Linkline to Welsh service to translate short sentences, food and drink names and whole menus free of charge.
- ✓ Try to ensure that staff who serve food understand Welsh names for food and drink, and are aware of the bilingual nature of the event.



Arddangosfa

Os bydd arddangosfa yn rhan o'r digwyddiad, dylech annog triniaeth gyson o ddwyieithrwydd gan stondinwyr, er mwyn dilyn trefn y digwyddiad yn ei gyfanrwydd. Mewn rhai digwyddiadau, efallai y byddwch am fynnu bod rhannau o bob standin yn ddwyieithog, megis prif arwyddion, taflenni gwybodaeth, o leiaf un aelod o staff, ac yn y blaen. Os ydych yn gwneud hynny, dylech ystyried hefyd sut fedrwyd chi roi cyngor neu gymorth priodol i stondinwyr, yn arbennig os nad ydynt yn gyfarwydd â gweithio yn ddwyieithog. Er enghraifft, gallech eu cyfeirio at wasanaethau cyfieithu a dylunio dwyieithog, neu at staff dros dro dwyieithog.

- ✓ Rhowch ganllawiau clir i stondinwyr ar eich disgwyliadau o ran eu defnydd o ddwyieithrwydd.
- ✓ Dosbarthwch fathodynau Dewis Cymraeg i stondinwyr, neu cyfeiriwch nhw at wefan y Bwrdd.
- ✓ Atgoffwch stondinwyr eu bod yn medru defnyddio'r Llinell Gyswllt â'r Gymraeg i gyfieithu neu brawf ddarllen darnau byrion o destun am ddim.

Gwobrau

Dylai gwobrau fel tlysau a thystysgrifau ddilyn patrwm dwyieithog y digwyddiad. Os bydd gwahoddiad i enillwyr ddweud gair neu ddwy, ceisiwch ddweud wrthynt ymlaen llaw bod croeso iddynt wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Fel arfer gallwch wneud hynny wrth eu gwahodd i'r digwyddiad, neu pan fyddwch yn eu croesawu wrth gyrraedd. Os medrwyd addasu trefn cyflwyno'r gwobrau, ceisiwch sicrhau bod yr enillydd cyntaf yn defnyddio'r Gymraeg, gan y bydd hynny yn annog enillwyr eraill i wneud yr un peth.

- ✓ Gwnewch yn siwr fod unrhyw destun ar wobrau yn gwbl ddwyieithog - defnyddiwch y gwasanaeth Llinell Gyswllt â'r Gymraeg i gyfieithu brawddegau byrion ar dlysau a thystysgrifau am ddim.

Exhibition

If your event includes an exhibition, you should try to ensure that it follows the bilingual tone of your event by encouraging a consistent approach to bilingualism by exhibitors. In some events, you may want to insist that parts of every stand are bilingual, such as main signs, information leaflets, at least one member of staff, and so on. If you do that, you should also consider how you can give appropriate advice or help to exhibitors, especially if they are not familiar with working bilingually. For example, you could refer them to translation and design services, or to temporary bilingual staff.

- ✓ Give clear guidelines to exhibitors on your expectations with regard to their use of bilingualism.
- ✓ Distribute Choose Welsh badges to exhibitors, or refer them to the Board's website.
- ✓ Remind exhibitors that they can use the Linkline to Welsh to translate or proofread small pieces of text for free.

Awards

Awards such as trophies and certificates should reflect the bilingual character of the event. If winners are invited to say a few words, try to tell them in advance that they are welcome to do so in Welsh or English. You can usually do so when you invite them to the event, or as you welcome them on arrival. If you can adjust the order of awards, try to ensure that the first winner uses Welsh, since this will encourage other winners to do the same.

- ✓ Ensure that any text on awards is completely bilingual - use the Linkline to Welsh service to translate short sentences on trophies and certificates free of charge.

Dogfennau defnyddiol

- ✓ Canllawiau Dylunio Dwyieithog
- ✓ Dyfarnu Grantiau Benthyciadau a Nawdd
- ✓ Arferion Gorau ar gyfer Arwyddion Dwyieithog
- ✓ Cynllun Dewis Cymraeg
- ✓ Canllawiau a Safonau ar gyfer Meddalwedd Dwyieithog

Gwasanaethau defnyddiol

Mae copïau o'r dogfennau canlynol ar gael ar ein gwefan wwbyig-wlb.org.uk

- ✓ Llinell Gyswllt (0845 607 6070)
Mae'r Llinell yn cyfieithu hyd at 30 o eiriau, golygu hyd at 75 o eiriau ac yn cyfieithu bwydlenni o bob math yn rhad ac am ddim.

www.byig-wlb.org.uk/llinellgyswllt

- ✓ Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Mae gwefan y Gymdeithas yn cynnwys cyfeirlyfr o gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd proffesiynol.

www.cyfieithwycymru.org.uk

Useful documents

- ✓ Bilingual Design Guidelines
- ✓ Awarding Grants, Loans and Sponsorship
- ✓ Best Practice for Bilingual Signs
- ✓ Choose Welsh Scheme
- ✓ Guidelines and Standards for Bilingual Software

Useful services

Copies of the following documents are available on our website

- ✓ Linkline to Welsh (0845 607 6070)
The Linkline translates up to 30 words, edits up to 75 words and translates all types of menus for free.

www.byig-wlb.org.uk/linkline

- ✓ Association of Welsh Translators and Interpreters
The Association's website includes a directory of professional translators and simultaneous translators.

www.cyfieithwycymru.org.uk

Nodiadau

Notes



Bwrdd yr Iaith Gymraeg

5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1AT

029 2087 8000

www.byig-wlb.org.uk

Welsh Language Board

5-7 St Mary Street, Cardiff, CF10 1AT

029 2087 8000

www.byig-wlb.org.uk